

CYFEILIOG (neu CYFEILLIOG ?) (bu farw 927), esgob Llandaf

Enw: Cyfeiliog
Dyddiad marw: 927
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: esgob Llandaf
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: John Edward Lloyd

Dwywed croniclau'r Saeson iddo gael ei ddal yn Erging pan ddaeth Daniaid i rannau gorllewinol canolbarth Lloegr - efallai fod Erging yn rhan o'i esgobaeth ar y pryd - a'i gludo i'r llongau, ond i Edward dalu'r swm o £40 yn bridwerth drosto; bernir yn awr mai yn 914 y bu hyn. Cyfeirir ato o dan yr enw ' Cimeilliauc ' yn ' Llyfr Llandaf ' ac adroddir yno iddo dderbyn naw rhodd o dir. O'r naw rhodd yr oedd pump yn diroedd yn Gwent, sef Trefynwy, Roggiet, Pool Meyrick, Bishton, a Caldicot. Brochwel ap Meurig, brenin Gwent yn adeg **Asser**, oedd y rhoddwr; rhoddwr arall oedd Hywel ap Rhys, brenin Glewysing (Morgannwg yn awr); y trydydd rhoddwr ydoedd Arthfael, mab Hywel.

Awdur

Syr John Edward Lloyd, (1861 - 1947)

Ffynonellau

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest*(London 1911), 332

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q18527363

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Trannu

Arddull APA

x

Lloyd, J. E., (1953). CYFEILIOG (neu CYFEILLIOG ?) (bu farw 927), esgob Llandaf. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 13 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-CYFE-ILI-0927>

Prifysgol

Prefatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government